

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Pontcanna Dental Care, Caerdydd

Dyddiad yr Arolygiad: 10 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
5.	Y Camau Nesaf.....	14
6.	Methodoleg	15
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn Pontcanna Dental Care, 102 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, ar 10 Ionawr 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Pontcanna Dental Care yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Pontcanna Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd a thu hwnt.

Mae Pontcanna Dental Care yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs, un hylenydd, un derbynnydd a rheolwr busnes.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Pontcanna Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y nodiadau cleifion a adolygwyd gennym o ansawdd uchel.
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel.
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chwynion y cleifion.
- Roedd archwiliadau perthnasol a chynhwysfawr yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi dystiolaeth bod y practis yn ymdrechu i wella ei wasanaethau yn barhaus.
- Roedd yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau clinigol a oedd wedi'u cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn dachus.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen i'r holl bolisiâu a gweithdrefnau fod yn gyson â'r rheini a oedd yn cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu wedi'u nodi arnynt.
- Dylid ychwanegu manylion AGIC at y polisi cwynion yn y llyfr gwybodaeth i gleifion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion, fel y tystiodd adborth gan gleifion. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Mae dod i apwyntiadau deintyddol wirioneddol yn bleser fan hyn. Mae'r holl staff yn hyfryd, yn wasanaethgar, ac yn gwneud eu swyddi'n dda."

"Mae'r ffaith fy mod i wedi defnyddio'r practis hwn ers rhyw 40 o flynyddoedd yn dweud y cyfan o ran fy hyder a fy modlonrwydd ar y gwasanaeth(au) a ddarperir gan y practis."

"Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwasanaeth yr wyf yn ei dderbyn. Rwy'n dod yn llai nerfus yn araf deg yn dilyn pob ymweliad."

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod lle er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintyddion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Dywedodd staff wrthym fod rhifau ffôn argyfwng ar beiriant ateb ffôn y practis, y wefan, a chardiau busnes.

Gofal unigol

Roedd llyfr 'gwybodaeth i gleifion' ar gael yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth y gallai fod ar glaf ei hangen ynglŷn â'r gwasanaeth, gan gynnwys manylion cyswllt, oriau agor, gofal brys, cwynion a rhestr brisiau.

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y dogfennau yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau eraill a allai cynorthwyo cleifion gyda'u problemau pe na bai'r rheiny yn cael eu datrys yn lleol. Roedd manylion ar gyfer AGIC nad oeddent wedi'u cynnwys yn y polisi cwynion yn y llyfr gwybodaeth i gleifion ac roedd angen eu hychwanegu. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i lleoli yng nghyntedd y practis a hefyd ar wefan y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis gynnwys manylion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn yr holl ddogfennau cwynion.

Roedd systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a dderbyniwyd gan y practis, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar lafar/anffurfiol. Roedd y systemau hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd, er mwyn nodi unrhyw themâu, ac yn cael eu trafod â'r staff mewn cyfarfodydd.

Cynhaliwyd diwrnodau tîm ar gyfer y staff yn rheolaidd a gwelsom nifer o gofnodion cynhwysfawr ar gyfer cyfarfodydd o'r fath. Dywedodd y staff wrthym hefyd y cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol rhwng aelodau'r tîm deintyddol bob dydd i sicrhau bod unrhyw negeseuon dyddiol yn cael eu cyfathrebu. Roedd y math hwn o gyfathrebu'n gweithio'n dda a chadarnhawyd hyn gan y staff.

Roedd y practis yn defnyddio llyfr sylwadau yn y man aros a holiaduron cleifion fel ffyrdd o gasglu adborth gan gleifion. Roedd canlyniadau'r arolwg diwethaf i ni ei weld wedi'u cwblhau a'u dadansoddi ac roeddent yn rhoi data cynhwysfawr ynglŷn â'r hyn mae'r practis yn ei wneud yn dda a'r meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

Roedd y dderbynfa a'r man aros ar ffurf cynllun agored, ond roedd lle ar gael yn y practis er mwyn cynnal sgysiau a galwadau ffôn preifat. Roedd y lle ar wahân hwn yn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion bob amser yn ystod sgysiau dros y ffôn, yn hytrach na

datgan gwybodaeth bersonol, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem hefyd yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod nodiadau clinigol a oedd yn cael eu hysgrifennu o ansawdd uchel, gyda thystiolaeth bod y gwiriadau angenrheidiol wedi'u gwneud yn ystod archwiliad ac wedi'u cofnodi.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel, ond er hynny, gwnaethom awgrymu bod y practis yn ystyried defnyddio'r clo ar y bin i wella diogelwch cyn i'r gwastraff gael ei gasglu.

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Roedd yn amlwg bod adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd yr holl fannau o fewn y practis yn lân ac yn daclus.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch safle'r practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar waith i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn.

Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.¹ Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaidd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio

Gwelsom fod y practis yn cwblhau archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd; cynhaliwyd yr un diwethaf ym mis Awst 2016. Roedd y practis yn defnyddio'r dull archwilio rheoli heintiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sy'n benodol i Gymru ac a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Roedd yr ystafell ddadheintio yn elwa ar ddrysau gwahanol, a oedd wedi'u labelu'n glir yn frwnt ac yn lân. Roedd y system hon yn nodi cyfeiriad y llif o'r man 'budr' i'r man 'glân' er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ac i atal mannau glân rhag cael eu croes-heintio.

Argymhellwyd y dylai'r practis, wrth osod peiriannau awtoclaf newydd yn y dyfodol, roi ystyriaeth i beiriannau awtoclaf sy'n argraffu neu'n cofnodi data, yn hytrach na pheiriannau awtoclaf lle mae'n rhaid cofnodi data â llaw, gan y byddai hyn yn helpu wrth fonitro effeithiolrwydd yr offer.

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion) ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom

¹ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n briodol. Roedd gan y practis system er mwyn tystio bod gwiriadau yn cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli â'u dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).² Fe'n hysbyswyd ar adeg ein hymweliad bod midzalam³ a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad cadw wedi cael ei ddanfôn i fferyllfa i gael gwared arno. Gan nad oedd unrhyw gofnodion i dystio i'r broses hon o gael gwared ar y cyffur, argymhellwyd bod y practis yn defnyddio ei gontractwyr gwastraff i ddarparu'r offer a'r dogfennau angenrheidiol fel tystiolaeth i ddangos bod cyffuriau a reolir yn cael eu gwaredu'n ddiogel ac mewn ffordd briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis adolygu ei broses gwaredu ar gyfer cyffuriau a reolir (ar gyfer midazolam yn benodol) er mwyn sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi ac yn briodol.

Roedd pob un o aelodau staff y practis wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn ystafell y gellir ei chloi; fodd bynnag, gwnaethom ofyn i'r practis ystyried gosod cwpwrdd y gellir ei gloi o fewn yr ystafell er mwyn gwella diogelwch y cyffuriau a'r offer pan nad oedd y practis yn gweithredu.

Diogelu

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisiâu diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

² [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

³ Meddyginiaeth a ddefnyddir ar gyfer anesthesia, tawelu gweithdrefnol, anawsterau cysgu, a chynnwrf difrifol yw midazolam

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis a bod yr holl ddeintyddion yn meddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais ar sicrhau diogelwch cleifion.

Offer radiograffeg

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn gyson â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl ddeintyddion a oedd yn cymryd rhan yn y broses o gynnal sganiau radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Roedd hyn yn unol â gofynion safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.⁴

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn gyfredol, yn unol â'r gofyn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oeddem yn gallu dod o hyd i ymateb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r practis (yn cydnabod bod sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis). Gwnaeth y rheolwr busnes gysylltu â nhw y diwrnod hwnnw, a gofyn am gadarnhad ganddynt o ran ffeil y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis gadarnhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cydnabod ei lythyr yn rhoi gwybod iddo fod sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis.

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Byddai hyn yn amlygu problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cefnogi gan sganiau pelydr-X da a chlir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeuddeg o gofnodion cleifion yn y practis. Yn gyffredinol, canfuom fod cofnodion clinigol yn cael eu hysgrifennu'n

⁴ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

ardderchog. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal yn ystod archwiliadau, a bod hyrwyddo iechyd y geg, sgrinio am ganser, a rhoi cyngor am roi'r gorau i ysmegu yn digwydd yn rheolaidd. Roedd cydsyniad cleifion wedi'i nodi'n dda ac roedd dewisiadau ysgrifenedig cynhwysfawr, gan gynnwys costau triniaeth, er mwyn galluogi cleifion i wneud penderfyniad gwybodus yn amlwg yn y nodiadau a adolygwyd gennym.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion ac archwiliadau radiograffeg.

Roedd un deintydd wedi cymryd rhan mewn adolygiadau gan gymheiriaid allanol gyda phractis deintyddol arall. Mae hyn yn arfer da sy'n cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir gan fod trefniadau o'r fath yn annog practisau i rannu gwybodaeth rhyngddynt er lles y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Cyfrifoldeb y rheolwr busnes oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu swyddogaethau. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cefnogi'r busnes a'r staff.

Mae'r practis wedi cael ei reoli gan y deintyddion presennol ers 2004.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i gefnogi gan ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisiâu, a thrwy drafodaethau ag aelodau'r tîm deintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol wedi'u sefydlu yn y practis. Gwnaethom argymhell bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu i sicrhau eu bod yn gyson â'r dogfennau sydd eisoes yn cynnwys yr wybodaeth hon.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus yn gwneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn dilyn cwrs ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau. Roedd llawlyfr i'r staff wrthi'n cael ei baratoi ar adeg ein hymweliad, a gwnaethom nodi bod hon yn fenter gadarnhaol.

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad blynyddol. Roedd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i'r staff fyfyrto ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallai fod ei angen arnynt. Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd wedi'u cynnal a'u cofnodi.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a'r staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff perthnasol i gyd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y llyfr gwybodaeth i gleifion.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Pontcanna Dental Care yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: Pontcanna Dental Care

Dyddiad yr Arolygiad: 10 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Mae angen i'r practis gynnwys manylion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn yr holl ddogfennau cwynion.	Rheoliad 15 (4) (a)	Mae manylion cyswllt AGIC bellach wedi cael eu hychwanegu at y llyfryn gwybodaeth yn y lolfâ.	GB	Cwblhawyd
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Mae angen i'r practis adolygu ei broses gwaredu ar gyfer cyffuriau a reolir (ar gyfer midazolam yn benodol) er mwyn sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi ac yn	Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005	Polisi wedi'i lunio ar gyfer gwaredu ar gyffuriau a reolir yn ddiogel. Polisi wedi'i rannu â'r holl staff ac yn cael ei gadw gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys.	GB / LM	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	briodol.				
10	Mae angen i'r practis gadarnhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cydnabod ei lythyr yn rhoi gwybod iddo fod sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis. <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.5 ac 1.9</i>	Rheoliad 14 (1) (b) Safon Iechyd a Gofal 2.9	Wedi cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gael copi o'r cadarnhad. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac fe'i hanfonwyd at gyswllt dynodedig yn y sefydliad hwnnw.	GB	Cwblhawyd
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	Ddim yn berthnasol				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):Grant Bignell

Teitl:Rheolwr Busnes

Dyddiad: 26/01/2017

